**Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol**

**7 Mehefin 2018**

## Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd o'r Bwrdd sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.

## Trafnidiaeth Cymru − Gweledigaeth ar gyfer Teithio Llesol

Roddwyd trosolwg byr i'r Bwrdd o waith Trafnidiaeth Cymru ac o'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd. O dan y contract hwn, a fydd yn para 15 mlynedd, KeolisAmey fydd yn gyfrifol am wasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ac am ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth integredig. Mae'r ymrwymiadau ar gael i'w gweld yn y Datganiad Ysgrifenedig canlynol: 'Y newyddion diweddaraf am gaffael Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru'.

Tynnodd Trafnidiaeth Cymru sylw at y model trafnidiaeth ar gyfer y De-ddwyrain sy'n sail i'w waith, a rhannodd fanylion am y gwaith recriwtio sydd ar droed. Cytunodd y Bwrdd hefyd i drefnu cyfarfod gyda KeolisAmey, er mwyn parhau i drafod teithio llesol.

## Argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei adroddiad, Gwaith Craffu ar ôl Deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae 24 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at nifer o'r argymhellion y byddai'n fuddiol eu trafod gyda'r Bwrdd, gan wahodd yr aelodau i fynegi barn ac i wneud awgrymiadau ar sut y dylid bwrw ymlaen â'r awgrymiadau hynny.

## Y Newyddion Diweddaraf am Lywodraeth Cymru

Rhoddwyd diweddariad byr i'r Bwrdd am weithgareddau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am raglen mesur Llygredd Aer y Dreigiau Ifanc, sydd wedi dechrau'n dda iawn. Cytunwyd y byddai'r pecyn gwybodaeth yn cael ei rannu â'r Bwrdd.

Cafwyd trafodaeth fer am Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r angen i'r Bwrdd gael gwybod gan y Byrddau hynny am wersi a ddysgwyd ganddynt. Cytunwyd y dylid ymdrin yn fanylach â'r mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## Unrhyw Fater Arall

1. Cyfeiriodd y Bwrdd yn fyr at y trafodaethau diweddar am gynigion gan y Comisiynydd Traffig i ganiatáu i Gerbydau Nwyddau Trwm gael defnyddio rhai lonydd bysiau. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r pryderon yn cael eu hystyried ac mai mater i'r awdurdodau lleol priodol yw penderfynu pa fathau o gerbydau y caniateir iddynt ddefnyddio lonydd bysiau.

2. Bydd yr adran drafnidiaeth yn comisiynu adolygiad i weld sut y mae ei chynlluniau hi ei hun wedi dilyn Deddf Teithio Llesol (Cymru). Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r Bwrdd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 29 Tachwedd 2018**